# Ymweliadau Safleoedd Cynllunio

# Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Ebrill, 2014

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Cynghorydd W.T.Hughes (Cadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Lewis Davies, Jeff Evans, Ann Griffith, John Griffith, Victor Hughes, Kenneth Hughes, Richard Owain Jones. |
| **WRTH LAW**: | Rheolwr Datblygu Cynllunio (DFJ)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Cynghorwyr Vaughan Hughes, Nicola Roberts |

---

**1 15C116E – Cais llawn i wneud gwaith altro ac ymestyn yn 3 Bythynnod Gwenllyr Malltraeth**

Roedd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion yn ei gyfarfod ar 2 Ebrill, 2014 wedi penderfynu y dylid ymweld â'r safle fel y gallai'r Aelodau weld y cynnig o fewn cyd-destun y complecs presennol.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Rheolwr Datblygu Cynllunio gyflwyno'r ffeithiau ynglŷn â'r cais.

Dangosodd y Swyddog gynlluniau'r cais i'r Aelodau ac eglurodd beth oedd y gwaith altro ac ymestyn arfaethedig i'r adeilad ar y safle – yn cynnwys codi uchder crib yr adeilad presennol gan 1m; codi dau estyniad deulawr ac ymestyn hyd at 15m i'r ochr gyda'r estyniadau'n ffurfio siâp T. Bydd y cynnig gorffenedig yn rhoi lle fydd yn cynnwys 5 ystafell wely, 5 ystafell ymolchi en-suite, cegin, ystafell amlbwrpas, ystafell ymolchi ac ystafell fyw. Bydd y cynnig yn cynyddu troedbrint yr adeilad presennol deirgwaith trosodd o 85.5 metr sgwâr i 255 metr sgwâr.

Edrychodd yr aelodau ar safle'r cais o du blaen, ochr a chefn yr adeilad presennol sy'n destun y cais er mwyn gallu asesu effaith debygol y cynnig ar yr adeiladau eraill o fewn y complecs ac ar yr ardal oddi amgylch.

**2 38C237B – Cais amlinellol i godi annedd ac adeiladu mynedfa i gerbydau ar dir ger Carreg y Darren Llanfechell**

Roedd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion yn ei gyfarfod ar 2 Ebrill, 2014 wedi penderfynu y dylid ymweld â'r safle a hynny ar gais yr Aelod Lleol fel y gallai'r Aelodau weld drostynt eu hunain safle'r cais a'i berthynas gydag anheddau eraill yn yr ardal.

*Datganodd y Cynghorydd Kenneth Hughes ddiddordeb yn y cais hwn ac ni chymerodd ran yn yr ymweliad safle.*

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Rheolwr Datblygu Cynllunio gyflwyno ffeithiau perthnasol y cais.

Eglurodd y Swyddog mai cais amlinellol ydyw am annedd ddeulawr gyda manylion ond wedi eu darparu mewn perthynas â'r fynedfa arfaethedig yn unig. Cadarnhaodd nad oedd yn gais am annedd amaethyddol. Cadarnhaodd hefyd nad oedd unrhyw wrthwynebiadau naill ar sail priffyrdd na materion technegol. Dangosodd y Swyddog fap o safle'r cais i'r Aelodau gan nodi lle y byddai'r fynedfa arfaethedig wedi ei lleoli. Dywedodd bod y plot yn un hir a chul ac yn ymestyn 20 metr i lawr o ffin y safle.

Tynnodd y Cynghorydd John Griffith, Aelod Lleol, sylw at anheddau eraill oedd yn union gerllaw safle'r cais gan nodi eu bod o wahanol feintiau a dyluniad .

**Cynghorydd W.T.Hughes**
**Cadeirydd**